

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
50/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
06/09/2018

Diweddariad ar yr Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau: Ffigurau allweddol o Gam 15

Adroddiad Diweddar

Y Cefndir

Cafodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Roedd y Ddeddf, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2015, yn cyflwyno system feddal o optio allan o gydsynio i roi organau a meinwe gan bobl farw yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch gyfathrebu barhaus er mwyn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r hyn y mae'r newidiadau yn ei olygu, ac o'r dewisiadau y gallant eu gwneud. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch a llywio ei datblygiad, mae angen cael gwybodaeth am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o gyfraith rhoi organau, ynghyd â'u hagweddau at newidiadau yn y ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Er mwyn bodloni'r anghenion ymchwil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru, a gynhelir gan Beaufort Research Ltd. Mae data'n cael eu casglu bob chwe mis rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2019, a chyhoeddir diweddariadau ar y data hyn.

Cafodd y gwaith maes ar gyfer cam 15 ei gynnal rhwng 26 Chwefror ac 11 Mawrth 2018 (1,011 o ymatebwyr). Cynhaliwyd ychydig o gyfweiliadau wedi'r dyddiadau hyn. Mae'r arolwg wedi'i lunio i gynrychioli'r boblogaeth sy'n preswyllo yng Nghymru ac sy'n 16 oed ac yn hŷn. Mae'r cwestiynau a ofynnwyd yn y cam hwn o'r arolwg wedi'u cynnwys yn Atodiad 2. Cyhoeddwyd manylion y [dulliau a ddefnyddiwyd yn flaenorol](#).

Canfyddiadau allweddol

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system gyfredol o roi organau

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr, yn ddigymell, a oeddent yn ymwybodol o'r system gyfredol o roi organau. Dywedodd tua wyth o bob deg (82 y cant) eu bod yn ymwybodol o'r system gyfredol. Yn ystod camau blaenorol yr arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr, yn ddigymell, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a oedd wedi digwydd i'r system rhoi organau. Gan fod y system wedi bod ar waith ers dwy flynedd bellach, mae geiriad y cwestiwn wedi cael ei ddiwygio. Er nad yw hyn yn gwbl gymaradwy o ganlyniad i'r newid yn y geiriad, mae'n ddiddorol nodi bod 70 y cant wedi dweud eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau yng [ngham 14](#).
- Fel y mae Tabl 1 yn Atodiad 1 yn ei ddangos, roedd benywod, ynghyd â'r rheiny yng ngraddau cymdeithasol ABC1, yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ymwybodol o'r system gyfredol. Roedd y rheiny rhwng 16 a 24 oed yn llai tebygol o ddweud eu bod yn ymwybodol ohoni.
- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r system gyfredol o roi organau sut y mae'r system yn gweithio, yn eu barn nhw. Roedd y cwestiwn hwn yn ddigymell. Mae Tabl 2 yn Atodiad 1 yn dangos bod bron wyth o bob deg (79 y cant) wedi amlinellu'n gywir y modd y mae'r system yn gweithio. Prin oedd y gwahaniaeth o ran dealltwriaeth o'r system rhwng y rhywiau. Roedd cyfran is o'r rheiny yng ngraddau cymdeithasol C2DE wedi nodi'n gywir y modd y mae'r system yn gweithio (73 y cant, o gymharu ag 85 y cant o'r rheiny yng ngraddau cymdeithasol ABC1). O ran oedran, roedd y rheiny rhwng 35 a 54 oed yn fwy tebygol o nodi'n gywir y modd y mae'r system yn gweithio, o gymharu â'r rheiny o dan 34 a thros 55 oed.
- Dangoswyd disgrifiad o'r system gyfredol o roi organau i'r holl ymatebwyr, a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdani yn flaenorol. Dywedodd wyth o bob deg ymatebydd (80 y cant) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y system. Dywedodd cyfrannau tebyg o'r ddau rywedd eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y system (79 y cant o wrywod, 81 y cant o fenywod). Roedd ychydig dros dri chwarter y rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE wedi dweud eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y system (76 y cant), o gymharu â dros wyth o bob deg (85 y cant) o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1. Yr ymatebwyr ieuengaf oedd y rhai lleiaf tebygol o ddweud eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y system (70 y cant o'r rheiny rhwng 16 a 34 oed, o gymharu ag 85 y cant o'r rheiny rhwng 35 a 54 oed ac 84 y cant o'r rheiny dros 55 oed).

Cefnogaeth ar gyfer cydsyniad tybiedig

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno y dylid trin y dewis yn benderfyniad i fod yn rhoddwr pe byddai unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, ac y dylid annog teuluoedd i dderbyn y penderfyniad hwnnw. Roedd bron tri chwarter (73 y cant) yn cytuno â'r datganiad (gydag ychydig dros bedwar o bob deg yn cytuno'n gryf). Mae cyfran yr ymatebwyr sy'n cytuno â'r datganiad wedi amrywio rhwng dau draean a thri chwarter oddi ar i'r cwestiwn cael ei ofyn gyntaf yng ngham 11 (Mawrth 2016), ac roedd tua saith o bob deg (69 y cant) yn cytuno yng ngham 14.

- Mae Tabl 3 yn Atodiad 1 yn dangos bod y cyfrannau a oedd yn cytuno yn debyg ar gyfer y ddau rywedd. Roedd ychydig dros dri chwarter (76 y cant) y rheiny yng ngraddau cymdeithasol ABC1 yn cytuno, ac roedd y ffigur cyfatebol ar gyfer y rheiny yng ngraddau cymdeithasol C2DE yn saith o bob deg (71 y cant). Roedd y nifer a oedd yn cytuno â'r datganiad ar ei isaf ymhlith y rhai rhwng 35 a 54 oed, sef saith o bob deg, ac roedd tua thri chwarter y rhai rhwng 16 a 34 oed (74 y cant) a'r rhai dros 55 oed (75 y cant) yn cytuno.

Ymwybyddiaeth o hysbysebion radio a theledu

- Aseswyd yr ymwybyddiaeth o'r ymgyrch hysbysebu ddiweddar ar y radio a'r teledu. Chwaraewyd pob hysbyseb i'r unigolion, a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi ei gweld neu ei chlywed o'r blaen. Yn gyffredinol, dywedodd bron tri o bob pump o'r ymatebwyr (57 y cant) eu bod wedi gweld yr hysbyseb deledu, ac roedd ychydig o dan ddau o bob pump (39 y cant) wedi clywed yr hysbyseb radio. Mae Tabl 4 yn Atodiad 1 yn dangos bod ymwybyddiaeth o'r hysbysebion yn debyg ar gyfer gwrywod a benywod. Roedd unigolion yng ngraddau cymdeithasol ABC1 yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi gweld neu glywed yr hysbysebion (roedd 41 y cant o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1 yn dweud nad oeddent yn ymwybodol o'r naill hysbyseb na'r llall, o gymharu â 34 y cant o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE). O ran oedran, y grŵp oedran ieuengaf (16-34 oed) oedd yn fwyaf tebygol o ddweud nad oedd yn ymwybodol o'r naill hysbyseb na'r llall (44 y cant, o gymharu â 37 y cant o'r rhai rhwng 35 a 54 oed, a 33 y cant o'r rhai dros 55 oed).

Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld yr hysbyseb deledu neu wedi clywed yr hysbyseb radio, 'Ers gweld/clywed yr hysbyseb, a ydych chi wedi trafod ag aelod o'r teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw?'. Dywedodd dau o bob pump (40 y cant) o'r ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed yr hysbyseb eu bod wedi trafod eu dymuniadau â'u teulu. Dywedodd bron un o bob pump (18 y cant) eu bod eisoes wedi trafod eu dymuniadau, cyn gweld yr hysbyseb. Mae Tabl 5 yn dangos bod dynion yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent wedi trafod eu dymuniadau (46 y cant, o gymharu â 37 y cant o fenywod). Dywedodd bron hanner yr ymatebwyr yng ngraddau cymdeithasol C2DE nad oeddent wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu, o gymharu â thraean o'r rheiny yng ngraddau cymdeithasol ABC1 (48 y cant o'r rheiny yn C2DE, 33 y cant o'r rheiny yn ABC1). Dywedodd ychydig dros draean (36 y cant) o'r rheiny rhwng 35 a 54 oed nad oeddent wedi trafod eu dymuniadau â'u teulu, o gymharu â dros ddau o bob pump ar gyfer pob un o'r grwpiau oedran eraill (47 y cant ar gyfer y rhai 16-34 oed, a 43 y cant ar gyfer y rhai dros 55 oed).
- Er nad yw'n gymaradwy â'r cwestiwn hwn, gofynnwyd i bob ymatebydd, yng nghamau blaenorol yr arolwg, 'A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw?'. Yng ngham 13, dywedodd tua hanner yr ymatebwyr (51 y cant) eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu, ac roedd hyn wedi cynyddu i 55 y cant yng [ngham 14](#).

ATODIAD 1

Tabl 1: A ydych chi'n ymwybodol o'r system gyfredol o roi organau?

	Cyfanswm	Rhywedd		Gradd Gymdeithasol						Oedran		
		Gwryw	Benyw	AB	C1	C2	DE	ABC1	C2DE	16-34	35-54	55+
Man cychwyn												
Heb ei bwysoli	1,011	433	578	183	303	201	320	486	521	253	274	484
Wedi'i bwysoli	1,011	491	520	184	304	200	319	488	519	296	330	385
Ydw	826 82%	388 79%	171 93%	171 93%	259 85%	168 84%	226 71%	430 88%	393 76%	204 69%	280 85%	342 89%
Nac ydw	174 17%	95 19%	11 6%	11 6%	42 14%	31 15%	89 28%	52 11%	120 23%	87 29%	46 14%	40 10%
Ddim yn gwybod	11 1%	8 2%	2 1%	2 1%	3 1%	2 1%	4 1%	5 1%	6 1%	5 2%	4 1%	3 1%

Man cychwyn: pob ymatebydd

Tabl 2: A allwch chi ddweud wrthyf sut y mae'r system yn gweithio yn eich barn chi? (Yn ddigymell)

	Cyfanswm	Rhywedd		Gradd Gymdeithasol						Oedran			
		Gwryw	Benyw	AB	C1	C2	DE	ABC1	C2DE	16-34	35-54	55+	
Man cychwyn													
Heb ei bwysoli	836	349	487	172	259	170	232	431	402	174	232	430	
Wedi'i bwysoli	826	388	438	171	259	168	226	430	393	204	280	342	
CYFANSWM 1, 2 neu 3	654 79%	310 80%	345 79%	149 87%	215 83%	133 79%	157 69%	364 85%	289 73%	156 77%	238 85%	260 76%	
1. System optio allan/ bydd angen optio allan	541 66%	250 64%	292 67%	133 78%	176 68%	108 64%	124 55%	308 72%	232 59%	130 64%	206 74%	205 60%	
2. Cydsyniad tybiedig	221 27%	108 28%	112 26%	48 28%	68 26%	54 32%	51 23%	116 27%	105 27%	59 29%	82 29%	80 23%	
System optio i mewn	49 6%	19 5%	30 7%	10 6%	11 4%	13 8%	14 6%	21 5%	27 7%	13 6%	14 5%	21 6%	
3. Rhaid i chi optio i mewn neu optio allan/gofrestru'r naill ffordd neu'r llall (neu wneud dim byd)	21 3%	7 2%	14 3%	- -	9 4%	6 3%	6 3%	9 2%	12 3%	6 3%	3 1%	12 4%	
Bydd y teulu'n penderfynu	18 2%	9 2%	9 2%	7 4%	7 3%	1 0%	4 2%	13 3%	4 1%	4 2%	5 2%	9 3%	
Er gwell	14 2%	5 1%	9 2%	3 2%	2 1%	3 2%	6 3%	5 1%	9 2%	3 2%	4 1%	7 2%	
Pob un arall	24 3%	12 3%	12 3%	5 3%	4 2%	5 3%	10 4%	9 2%	15 4%	5 2%	8 3%	12 3%	
Ddim yn gwybod	68 8%	33 8%	35 8%	1 1%	19 7%	13 7%	34 15%	21 5%	46 12%	22 11%	15 6%	30 9%	

Man cychwyn: ymatebwyr sy'n ymwybodol o'r system gyfredol

Tabl 3: Os bydd unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, i ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid trin y dewis hwnnw yn benderfyniad i fod yn rhoddwr, ac yn benderfyniad y dylid annog teuluoedd i'w dderbyn?

	Cyfanswm	Rhywedd		Gradd Gymdeithasol						Oedran		
		Gwryw	Benyw	AB	C1	C2	DE	ABC1	C2DE	16-34	35-54	55+
Man cychwyn												
Heb ei bwysoli	1011	433	578	183	303	201	320	486	521	253	274	484
Wedi'i bwysoli	1011	491	520	184	304	200	319	488	519	296	330	385
Cytuno'n gryf	436 43%	202 41%	233 45%	86 47%	138 45%	99 49%	113 35%	224 46%	211 41%	131 44%	140 42%	165 43%
Cytuno	302 30%	154 31%	148 29%	56 31%	91 30%	55 27%	99 31%	147 30%	154 30%	88 30%	92 28%	123 32%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	112 11%	63 13%	49 9%	10 5%	36 12%	18 9%	47 15%	45 9%	65 13%	34 11%	40 12%	38 10%
Anghytuno	84 8%	32 7%	52 10%	17 9%	25 8%	11 5%	31 10%	42 9%	42 8%	25 8%	27 8%	32 8%
Anghytuno'n gryf	50 5%	29 6%	21 4%	11 6%	11 4%	12 6%	16 5%	22 5%	28 5%	9 3%	25 8%	16 4%
Ddim yn gwybod	27 3%	11 2%	16 3%	4 2%	4 1%	6 3%	12 4%	8 2%	19 4%	10 3%	6 2%	11 3%
Gwrthod ymateb	1 0%	- -	1 0%	- -	- -	- -	1 0%	- -	1 0%	1 0%	- -	- -
CYTUNO yn gyffredinol	738 73%	356 72%	381 73%	142 78%	228 75%	153 77%	212 66%	370 76%	365 70%	218 74%	232 70%	288 75%
ANGHYTUNO yn gyffredinol	134 13%	61 12%	73 14%	28 15%	36 12%	23 11%	47 15%	64 13%	70 13%	33 11%	53 16%	48 13%

Man cychwyn: pob ymatebydd

Tabl 4: Yn ymwybodol o'r hysbyseb deledu neu'r hysbyseb radio

	Cyfanswm	Rhywedd		Gradd Gymdeithasol						Oedran		
		Gwryw	Benyw	AB	C1	C2	DE	ABC1	C2DE	16-34	35-54	55+
Man cychwyn												
Heb ei bwysoli	1011	433	578	183	303	201	320	486	521	253	274	484
Wedi'i bwysoli	1011	491	520	184	304	200	319	488	519	296	330	385
Yn ymwybodol o'r hysbyseb deledu yn unig	245 24%	120 24%	124 24%	36 20%	87 29%	50 25%	71 22%	123 25%	121 23%	59 20%	71 22%	114 30%
Yn ymwybodol o'r hysbyseb radio yn unig	59 6%	38 8%	21 4%	15 8%	15 5%	14 7%	15 5%	29 6%	30 6%	15 5%	25 8%	19 5%
Yn ymwybodol o'r hysbyseb deledu a'r hysbyseb radio	330 33%	150 31%	180 35%	49 27%	87 28%	75 38%	118 37%	136 28%	193 37%	93 31%	111 34%	126 33%
DDIM yn ymwybodol o'r naill na'r llall	378 37%	183 37%	195 37%	83 45%	116 38%	61 30%	114 36%	200 41%	175 34%	129 44%	122 37%	126 33%
NET: Yn ymwybodol o'r naill hysbyseb neu'r llall	633 63%	308 63%	325 63%	100 55%	188 62%	139 70%	205 64%	288 59%	344 66%	167 56%	208 63%	259 67%

Man cychwyn: pob ymatebydd

Tabl 5: Ers gweld/clywed yr hysbyseb, a ydych chi wedi trafod ag aelod o'r teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw?

	Cyfanswm	Rhywedd		Gradd Gymdeithasol						Oedran		
		Gwryw	Benyw	AB	C1	C2	DE	ABC1	C2DE	16-34	35-54	55+
Man cychwyn												
Heb ei bwysoli	644	281	363	105	188	142	208	293	350	140	174	330
Wedi'i bwysoli	633	308	325	100	188	139	205	288	344	167	208	259
Ydw	253 40%	120 39%	133 41%	38 38%	83 44%	52 37%	79 38%	121 42%	131 38%	66 39%	87 42%	99 38%
Nac ydw	262 41%	141 46%	122 37%	26 26%	71 38%	63 45%	103 50%	97 33%	166 48%	78 47%	74 36%	110 43%
Eisoes wedi'u trafod cyn gweld/clywed yr hysbyseb	116 18%	47 15%	69 21%	35 35%	34 18%	24 17%	24 12%	68 24%	47 14%	23 14%	46 22%	47 18%
Ddim yn gwybod	3 0%	1 0%	1 0%	1 1%	1 0%	1 1%	- -	2 1%	1 0%	- -	- -	3 1%

Man cychwyn: ymatebwyr a oedd wedi gweld yr hysbyseb deledu neu glywed yr hysbyseb radio

ATODIAD 2

Organ donation omnibus questions March 2018

Q1. (UNPROMPTED) Are you aware of the current organ donation system?

- Yes
- No
- Don't know

[ASK IF AWARE OF AT Q2](#)

Q2. Can you tell me how you think the system works?

OPEN ENDED

Please take a look at this card

SHOWCARD

The Welsh Government introduced an opt out organ donation system on 1 December 2015. People can now formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The system allows family members to object to donation on the basis that they know the deceased person would not have wished to consent. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor continues.

Q3. (PROMPTED) Before today, have you seen or heard anything about this?

- Yes
- No
- Don't know

Q4. To what extent do you agree or disagree that, if an individual chooses not to register a decision, this should be treated as a decision to be a donor which families should be encouraged to accept?

- Strongly agree
- Agree
- Neither agree nor disagree
- Disagree
- Strongly disagree
- Don't know

ORDER OF Q5a/b TO BE ROTATED

ASK ALL

PLAY TV ADVERT

Q5a. I'd like you watch this advert. Can you tell me if you have seen this before or not?

Yes

No

Don't know

ASK ALL

PLAY RADIO ADVERT

Q5b. I'd like you to listen to this advert. Have you heard this before or not?

Yes

No

Don't know

ASK IF ANSWERED YES TO EITHER 5a or 5b

Q6. Have you discussed organ donation with your family since seeing/hearing the advert?

Yes

No

Had already discussed before this

ASK ALL

Q7. What do you think are the main messages that the adverts are trying to get across?

PROMPT: Anything else?

RECORD VERBATIM

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ian Jones
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 0090

Ebost: rhoi.organau@llyw.cymru

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2018

ISBN: 978-1-78964-063-2

© Hawlfraint y Goron 2018



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan [Drwydded Agored y Llywodraeth f3.0](#) oni nodir yn wahanol